*Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg*

# Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol

## Ymgynghoriad

**Mawrth 2024**

# Cynnwys


**Cyflwyniad ..... 1**

Ynghylch yr ymgynghoriad hwn ..... 1

**Ein cynigion am ddull newydd ..... 4**

Cynnig 1: Y drefn o gategoreiddio darparwyr ..... 4

Cynnig 2: Elfennau'r broses adolygu ..... 4

Cynnig 3: Un dull o wneud Gwiriad CRhLlA ..... 5

Cynnig 4: Amserlenni dangosol y broses adolygu ..... 6

Cynnig 5: Trefniadau symlach ar gyfer gwneud cais ..... 10

Cynnig 6: Dull safonol o adolygu a dadansoddi ..... 10

Cynnig 7: Beirniadaethau posibl yr adolygiad a'r camau gweithredu i'w cymryd mewn ymateb iddynt ..... 11

Cynnig 8: Y trefniadau monitro ..... 11

Cynnig 9: Y drefn ffioedd am wneud Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol ..... 12

Cynnig 10: Trefniadau pontio ..... 14

Cwestiwn i gloi ..... 15

# Cyflwyniad

1 Nod yr ymgynghoriad hwn yw cael sylwadau am weithrediad arfaethedig dull adolygu newydd a ddatblygwyd i gymryd lle nifer o ddulliau presennol QAA.

2 Bydd yr ymgynghoriad o ddiddordeb i ddarparwyr addysg uwch ac addysg bellach, eu cyrff cynrychioli, cyrff eraill yn y sector addysg uwch, adrannau'r llywodraethau a'r myfyrwyr. Byddem yn annog sylwadau'n arbennig gan y darparwyr hynny sydd i gael eu hadolygu gan QAA o dan ei dulliau cyfredol.

3 Mae QAA yn gorff sy'n gyfrifol am gadw goruchwyliaeth addysgol a gydnabyddir gan y Swyddfa Gartref a Fisâu a Mewnfudo'r DU i asesu ansawdd a safonau 'darparwyr amgen' sy'n ceisio cael neu gadw Trwydded Noddwr Myfyrwyr, ac sydd hefyd yn adolygu darparwyr penodol sy'n ceisio cael dynodiad cwrs penodol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ar hyn o bryd, mae QAA yn defnyddio pedwar dull ar wahân[1], yn ogystal â phroses fonitro flynyddol, i adolygu darparwyr at y dibenion hyn. Ar y cyd, rydym yn cyfeirio at y dulliau hyn fel y 'dulliau o adolygu darparwyr amgen'.

4 Mae'r darparwyr sy'n gymwys ar gyfer y dulliau sydd wedi eu disgrifio uchod yn atebol i adolygiad llawn unwaith bob pedair blynedd, ac wedyn fonitro blynyddol yn y tair blynedd ddilynol. Asesir darparwyr yn erbyn yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (fersiwn 2018) a gofynnir eu bod yn cynhyrchu cynllun gweithredu yn dilyn pob adolygiad llawn. Yna mae'r cynllun gweithredu'n darparu'r sail ar gyfer asesiad yn ystod y broses fonitro flynyddol.

## Ynghylch yr ymgynghoriad hwn

5 Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig newid y dulliau ar gyfer darparwyr amgen a ddefnyddir ar hyn o bryd gan QAA am un dull unigol newydd - y dull **Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol** - sydd ag elfennau hyblyg i adlewyrchu amgylchiadau amrywiol ddarparwyr. Er ein bod wedi adolygu elfennau o'r dulliau ar gyfer darparwyr amgen yn gyfnodol, nid ydym wedi gwneud unrhyw newidiadau sylweddol hyd yn hyn. Rydym yn ystyried bod yr amser yn gywir i wneud hyn yn awr am y rhesymau sydd wedi eu nodi isod.

6 Dylid darllen y ddogfen ymgynghori ochr yn ochr â'r canllawiau arfaethedig i ddarparwyr a gynhyrchwyd gennym. Mae'r canllawiau'n rhoi esboniad manwl ynglŷn â'r ffordd yr ydym yn bwriadu i'r dull Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol weithredu yn ymarferol. Rydym yn argymell yn gryf bod ymatebwyr yn darllen y canllawiau arfaethedig i ddarparwyr cyn ystyried yr adran nesaf - 'Ein cynigion am ddull newydd'.

7 Ystyriwn fod angen gwneud adolygiad cynhwysfawr am nifer o resymau. Yn gyntaf, fel y nodwyd uchod, mae pedwar dull ar hyn o bryd yn ymwneud ag amrywiol fathau o ddarparwyr ac amrywiol gymhlethdodau darpariaeth. Cafodd y dulliau presennol eu cyflwyno'n wreiddiol pan oedd etholaeth llawer mwy o fwy na 100 o ddarparwyr angen eu hadolygu. Newidiodd hyn yn bennaf yn dilyn y newidiadau yn y rheoliadau yn Lloegr a gafodd eu cyflwyno yn sgil *Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017* pan oedd gofyn i nifer fawr o ddarparwyr amgen geisio cael cofrestriad gan y Swyddfa Myfyrwyr; ac yn awr mae llai na 35 o ddarparwyr angen adolygiad o dan y dulliau hyn.

8 Fel y mae'n berthnasol i'r darparwyr sy'n ceisio cael goruchwyliaeth addysgol i gael Trwydded Noddwr Myfyrwyr, mae'r dulliau sefydledig presennol yn cynnig asesiad cadarn o ansawdd a safonau i sicrhau bod gofynion y Swyddfa Gartref wedi eu bodloni gan ddefnyddio

[1] Adolygiad Addysg Uwch (Darparwyr Amgen) (Adolygiad AU-DA); Adolygiad Addysg Uwch (Darparwyr Tramor) (Adolygiad AU-DP); Cynllun Cydnabod ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol (Cynllun CGA); a Goruchwyliaeth Addysgol - Trefniadau Eithriadol (GA-TE).

Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd) fel y pwynt cyfeirio allanol cydnabyddedig. Ar hyn o bryd, mae'r mwyafrif llethol o ddarparwyr sy'n ceisio cael eu hadolygu o dan y dulliau ar gyfer darparwyr amgen yn gwneud hynny at ddibenion Trwydded Noddwr Myfyrwyr. Pan gafodd y dulliau eu datblygu'n gyntaf, fodd bynnag, roedd y grŵp hwn yn lleiafswm i ddarparwyr, ac roedd y mwyafrif yn defnyddio'r broses adolygu i gefnogi eu ceisiadau i'r Adran Addysg yn Lloegr ar gyfer Dynodiad Cwrs Penodol. Nid yw'r llwybr hwn ar gael bellach. Felly, rydym yn ystyried y byddai'n fuddiol os gallai canlyniadau'r broses adolygu gyfeirio'n fwy eglur yn awr at y gofynion sydd wedi eu nodi gan y Swyddfa Myfyrwyr yn ei Chanllawiau i Noddwyr Myfyrwyr[2] ac adlewyrchu'r darparwyr sy'n ceisio cael eu hadolygu

9 Yn ail, yn y flwyddyn neu ddwy flaenorol, derbyniodd QAA geisiadau am adolygu gan nifer o ddarparwyr oedd heb eu hadolygu ganddi o'r blaen, ac rydym wedi canfod nad yw bob amser yn glir i'r ymgeiswyr newydd hyn, pa ddull adolygu y maen nhw eu hangen a pham. Mae QAA hefyd yn gweithredu dulliau adolygu eraill yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sy'n darparu gwybodaeth i'r cyrff cyllido a'r cyrff rheoleiddio yn y gwledydd hyn ac, yn gyffredinol, mae'r adolygiadau hyn hefyd yn cyflawni'r anghenion ar gyfer adolygiad ansawdd allanol gan gorff sy'n gyfrifol am gadw goruchwyliaeth addysgol.[3] Yn Lloegr nid yw QAA ond yn gallu adolygu darparwr at ddibenion goruchwyliaeth addysgol pan mae wedi ei nodi nad yw'r darparwr yn ddarparwr addysg uwch Lloegr (fel y mae wedi ei ddiffinio yn Neddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017) ac na all gofrestru gyda'r Swyddfa Myfyrwyr.[4]

10 O'r ymholiadau yr ydym wedi eu derbyn gan ddarparwyr, rydym wedi dod i'r casgliad nad yw darparwyr bob amser yn deall y gwahaniaeth rhwng y gwahanol ddulliau adolygu a'r cyrff y mae'n rhaid iddynt geisio goruchwyliaeth addysgol ganddynt. Rydym yn ystyried ymhellach fod gweithredu pedair trefn adolygu wahanol ar gyfer amgylchiadau darparwyr gwahanol yn cael yr effaith amhleserus o wneud i'r gofynion o ran goruchwyliaeth addysgol ymddangos yn llawer mwy cymhleth nag sy'n angenrheidiol. Rydym wedi dod i'r casgliad y gallwn symleiddio'r trefniadau adolygu gan hefyd gynnal y trylwyredd sy'n ofynnol ac esbonio'n fwy eglur i ddarparwyr sut y gallent ein hymgysylltu ni â'r trefnau adolygu hyn. Ystyriwn y bydd hyn yn dod â'r fantais o ddileu rhwystr mynediad posibl i ddarparwyr a allai gael eu digalonni ar hyn o bryd gan gymhlethdod amlwg y trefniadau.

11 Yn drydydd, mae QAA yn ystyried nad yw'r gyfundrefn enwi sy'n cael ei defnyddio gan y dulliau adolygu cyfredol yn addas i'r pwrpas bellach. Rydym yn ymwybodol nad yw'r darparwyr y cyfeirir atynt fel darparwyr amgen wedi croesawu'r derminoleg hon bob amser. Rydym o'r farn, yn arbennig yn Lloegr, bod llai o wahaniaeth rhwng gwahanol fathau o ddarparwyr ar sail eu trefniadau corfforaethol, ond yn hytrach bod y gwahaniaeth yn ymwneud yn y lle cyntaf â'r gwahanol drefniadau rheoleiddio a allai fod yn berthnasol i wahanol sefydliadau, yn dibynnu ar eu darpariaeth. Felly, rydym o'r farn ei bod hi'n angenrheidiol diweddaru'r iaith a ddefnyddir yn ein dulliau er mwyn adlewyrchu'r realiti'n well o fod yn ddarparwr addysg uwch yn y DU ar hyn o bryd.

12 Yn olaf, mae pob un o'r dulliau cyfredol o adolygu darparwyr amgen yn defnyddio fersiwn 2018 y Cod Ansawdd fel ei bwynt cyfeirio. Ar hyn o bryd, mae QAA yn gweithio gyda'r sector addysg uwch i adolygu'r Cod Ansawdd, ac, yn amodol ar ymgynghoriad ar wahân, bydd yn cynhyrchu fersiwn ddiwygiedig yn hwyrach yn 2024. Beth bynnag, byddai argraffiad diwygiedig

---

[2] Mae QAA wedi defnyddio'r Cod Ansawdd fel pwynt cyfeirio yn ei dulliau adolygu bob amser, ac mae hyn yn ymwneud â phob un o'r gofynion o ran sicrhau ansawdd sydd wedi eu gosod gan y Swyddfa Gartref, ond nid oedd ein hadrodd ninnau'n fframio canlyniadau'r broses adolygu yn y ffordd hon.

[3] QAA yw'r corff perthnasol sy'n gyfrifol am gadw goruchwyliaeth addysgol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon; yng Nghymru, mae QAA yn gwneud ei hadolygiadau ar ran CCAUC, sef y corff sy'n gyfrifol am gadw goruchwyliaeth addysgol.

[4] Er mwyn osgoi amheuaeth, os yw darparwr wedi gwneud cais am gofrestriad gan y Swyddfa Myfyrwyr ac mae wedi bod yn aflwyddiannus, ni all QAA ei adolygu o dan y dulliau hyn.

arfaethedig y Cod Ansawdd[5] yn gofyn diweddaru'r dulliau cyfredol yn sylweddol, ac felly rydym yn teimlo ei bod hi'n amser cynhyrchu un gyfres o gynigion yn hytrach na diwygio'r dull, ac yna ei hadolygu ymhellach i gynnwys pwynt cyfeirio newydd (neu vice versa).

13 Rydym wedi cyflwyno'r ymgynghoriad hwn fel un sy'n gysylltiedig â dull adolygu hollol newydd, yn hytrach na diwygio'r dulliau presennol. Rydym yn ystyried bod hwn yn ddull symlach oherwydd mae'n gadael i ni esbonio'r cynigion am y ffordd y bydd y dull newydd yn gweithredu, yn hytrach nag esbonio'r gwahaniaethau rhwng pedwar dull gwahanol a sut y bydd y cynigion newydd hyn yn gweithredu. Wedi dweud hynny, mae llawer o elfennau'r dulliau adolygu presennol, lle maen nhw'n parhau'n briodol yn ein barn ni, wedi eu cynnwys yn y dulliau newydd a fydd yn arwain at rywfaint o gynefindra i'r darparwyr hynny a fydd yn trosglwyddo o un o'r dulliau presennol i'r dull newydd.

14 Felly, rydym wedi dod i'r casgliad bod angen gwneud adolygiad cynhwysfawr erbyn hyn er mwyn mynd i'r afael â phob un o'r materion hyn. Mae ein cynigion mewn perthynas â hyn wedi eu disgrifio yng ngweddill y ddogfen hon. Rydym yn bwriadu gweithredu'r dull newydd o wneud Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol o flwyddyn academaidd 2024-25 ac felly rydym yn gwneud ymgynghoriad yn awr er mwyn deall barn y rhanddeiliaid am y dull yr ydym yn bwriadu ei weithredu.

15 Mae gwaith a dulliau adolygu QAA yn cael eu hysbysu gan werthoedd sylfaenol Ardal Addysg Uwch Ewrop. Llunnir ymagwedd a dulliau QAA i fodloni'r safonau ac adlewyrchu'r canllawiau sy'n rhan o'r Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop (ESG). Mae QAA yn ceisio annog ymgysylltiad â disgwyliadau eraill Proses Bologna, gan gynnwys dulliau o hwyluso symudedd myfyrwyr. Mae QAA yn ystyried bod y dull arfaethedig hwn yn alinio gyda'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd, ac unwaith y bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben a'r dull adolygu wedi ei lunio'n derfynol, bydd yn ceisio cofrestru'r dull newydd gyda'r Gofrestr Ewropeaidd ar gyfer Sicrhau Ansawdd (EQAR).[6]

## Y camau nesaf

16 Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored am chwe wythnos. Gall ymatebwyr gyflwyno eu hymatebion i'n cynigion drwy gwblhau arolwg ar-lein ar wefan XXX. Gallwn ateb cwestiynau am yr ymgynghoriad a'r dull arfaethedig - dylai unrhyw un sydd â diddordeb gysylltu â ni drwy anfon e-bost at AssessmentServices@qaa.ac.uk.

17 Bydd QAA yn cynnal gweminar i ateb unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad ar Ddydd Mercher 10 Ebrill. I gadw eich lle, ewch i'n gwefan gofrestru ar gyfer yr ymgynghoriad am y dull Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol.

18 Ar ôl cau'r ymgynghoriad, byddwn yn ystyried yr ymatebion i gyd. Yna byddwn yn gwneud newidiadau i'n cynigion os byddwn yn ystyried bod rheswm clir i wneud hynny. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein hymateb i'r ymgynghoriad yn ogystal â fersiwn terfynol o ganllawiau i ddarparwyr ym mis Mehefin 2024.

[5] Mae'r fersiwn diwygiedig arfaethedig o God Ansawdd Addysg Uwch y DU yn mynd i dderbyn ymgynghoriad ar wahân ym mis Ebrill 2024. Rydym yn argymell yn gryf bod rhanddeiliaid sy'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn hefyd yn ystyried yr ymgynghoriad hwnnw.

[6] Mae cofrestriad QAA ar y gofrestr EQAR i'w weld ar y wefan www.eqar.eu/register/agencies/agency/?id39.

## Ein cynigion am ddull newydd

19 Bydd yr adran hon yn amlinellu'r dull adolygu newydd arfaethedig a sut y mae'n wahanol i'r dulliau presennol o adolygu darparwyr amgen, gan roi manylion ein rhesymeg. Yn dilyn pob paragraff bydd cwestiwn y gellir ei ateb drwy gyfrwng arolwg ar-lein. Rydym yn annog yr ymatebwyr i ddefnyddio'r arolwg ar-lein i ymateb i'r ymgynghoriad hwn er mwyn sicrhau y gallwn gofnodi eu barn yn llawn a'r rhesymau amdanynt.

### Cynnig 1: Y drefn o gategoreiddio darparwyr

20 Yn y canllawiau arfaethedig i ddarparwyr, rydym wedi nodi arweiniad newydd i ddarparwyr sy'n bwriadu gwneud cais i QAA am oruchwyliaeth addysgol. Y nod yn y fan yma yw bod darparwyr yn deall a ydynt yn gymwys i wneud cais ai peidio. Yn ogystal, rydym wedi cynnwys tabl i dynnu sylw at y disgrifiad o ddarparwr sydd wedi ei roi gan y Swyddfa Gartref, er mwyn helpu darparwyr i sefydlu dealltwriaeth o ba ddisgrifiad allai fod yn berthnasol iddyn nhw os ydynt yn gwneud cais at ddibenion Trwydded Noddwr Myfyrwyr.

21 Yn ein canllawiau arfaethedig, rydym wedi ceisio nodi'n glir dri chategori gwahanol o ddarparwr yr ydym yn ystyried y dylent wneud cais i'r dull adolygu hwn, a sut y bydd categoreiddio'r darparwyr yn effeithio ar y dull adolygu a'i gynnwys. Bydd darparwyr sefydledig sy'n atebol i'r dulliau ar gyfer darparwyr amgen yn cael eu hailgategoreiddio yn y ffordd hon. Bydd darparwyr wedi eu categoreiddio i naill ai gategori A, B neu C yn dibynnu ar gyd-destun y darparwr a'u rhesymau am geisio adolygiad gan QAA.

22 Y diben yw rhoi gwybod yn glir pa elfennau o'r broses adolygu (sydd wedi eu trafod yn fanylach isod) sy'n berthnasol a pham. I gael y cyd-destun, o dan y dulliau ar gyfer darparwyr amgen, byddai darparwr unigol yn cael ei gyfeirio at *ddull adolygu* penodol ar sail nodweddion darparwyr penodol - er enghraifft, coleg mewnosodedig neu sefydliad addysg uwch tramor - yn hytrach na chanfod hyblygrwydd yn y dull adolygu ei hun, sef yr hyn rydym yn ei gynnig a fyddai'r achos yn y fan yma. Gan nodi'r rhesymau y gallai darparwyr geisio adolygiad o bosib, y bwriad yn awr yw i ddarparwyr gael eu categoreiddio ond gydag esboniad mwy eglur ynglŷn â pham a pha agweddau y byddent yn cael eu hasesu yn eu herbyn yn hytrach na gweithredu dull adolygu hollol ar wahân. Rydym yn ystyried y dylai hyn symleiddio'n sylweddol ddealltwriaeth i ddarparwyr ynglŷn â pham mae'r adolygiad hwn yn berthnasol i'w hamgylchiadau, ond hefyd pa elfennau o'r adolygiad fydd yn berthnasol iddyn nhw.

23 Wrth ffurfio'r categorïau arfaethedig, rydym wedi ceisio cydnabod y trefnau presennol ar gyfer grwpio darparwyr sy'n atebol i'r dulliau ar gyfer darparwyr amgen, darparwyr eraill a allai ddewis y dulliau, gan hefyd geisio sicrhau ei bod hi'n glir i ddarparwyr y mae'r dulliau adolygu hyn yn berthnasol iddynt.

**C: Ydych chi'n cytuno gyda'r categorïau arfaethedig o ddarparwyr yr ydym wedi eu nodi ym mharagraff 2 y canllawiau?**

### Cynnig 2: Elfennau'r broses adolygu

24 Lle bo'n berthnasol gwneud hynny, rydym wedi ceisio cadw rhai elfennau o'r dull Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol yn debyg i'r dulliau ar gyfer darparwyr amgen. Lle mae gwahaniaethau mwy sylweddol, yna trafodir y rhain yn y paragraffau isod.

25 Rydym yn bwriadu cyflwyno dull adolygu hyblyg wedi ei yrru gan system sydd â nifer o 'elfennau' (wedi ei llunio i gymryd lle'r amrywiol ddulliau presennol). Bydd gwahanol elfennau o'r broses adolygu'n berthnasol yn dibynnu ar ba gategori y mae'r darparwr sy'n ceisio adolygiad yn perthyn iddo.

26 Mae pedair elfen arfaethedig y gellir galw arnynt i ddatblygu proses adolygu: yr Elfen Gwiriad CRhLIA, yr Elfen Graidd, yr Elfen Lawn a'r Elfen Fonitro. Mae rhagor o fanylion pob un o'r elfennau hyn i'w gweld ar dudalennau 3 i 5 y canllawiau.

27 Diben gwneud cais am wahanol elfennau, yn dibynnu ar ba gategori y mae'r darparwr yn perthyn iddo, yw sicrhau bod darparwyr yn cael eu hasesu'n gywir yn erbyn y gofynion perthnasol sy'n gysylltiedig â'u rhesymau am adolygiad (ceisio Trwydded Noddwr Myfyrwyr; Dynodiad Cwrs Penodol neu am resymau gwirfoddol) a chyd-destun yr addysg uwch a gynigir gan y darparwr - sy'n nodi bod rhai darparwyr, er enghraifft, ddim ond yn cynnig cyrsiau byr o bosib. Er enghraifft, o ran darparwr sy'n cynnig cyrsiau addysg lle gall y myfyriwr ennill cymhwyster cyflawn sydd ar lefel 4, 5 neu 6 (neu lefel gyfatebol) y FHEQ, a cheisio Trwydded Noddwr Myfyrwyr (categori A), byddai gofyn iddynt wneud tair o'r pedair elfen (y Gwiriad CRhLIA, yr Elfen Lawn a'r Elfen Fonitro). Fodd bynnag, byddai gofyn i ddarparwr sy'n ceisio cael dynodiad cwrs penodol yn unig (categori B) ond gwneud dwy o'r pedair elfen (yr Elfen Lawn a'r Elfen Fonitro).

28 Rydym yn ystyried bod y gwahaniaeth rhwng yr Elfen Graidd a'r Elfen Lawn yn briodol oherwydd gwahanol natur y ddarpariaeth addysg uwch y bydd y categorïau o ddarparwr, yn amodol ar yr adolygiadau hyn, yn eu cynnig. Mae'r Elfen Graidd wedi ei llunio i gyflawni'r gofynion sylfaenol o ran goruchwyliaeth addysgol sydd wedi eu gosod gan y Swyddfa Gartref ar gyfer y darparwyr hynny nad ydynt yn cynnig rhaglenni addysg uwch llawn. Mae'r Elfen Lawn yn cynrychioli asesiad llawn yn erbyn pob agwedd o'r Cod Ansawdd ar gyfer y darparwyr hynny sy'n cynnig rhaglenni addysg uwch llawn.

**C: O ystyried y tabl ar dudalennau 3 i 4 y canllawiau a'r wybodaeth am gynnwys yr elfennau sydd yn y canllawiau (paragraffau 6 i 19) - ydych chi'n ystyried bod strwythur arfaethedig pob adolygiad ar gyfer pob categori o ddarparwr yn briodol?**

## Cynnig 3: Un dull o wneud Gwiriad CRhLIA

29 Rydym yn cynnig y bydd pob darparwr sy'n perthyn i gategori A yn atebol i Wiriad o Gynaliadwyedd, Rheolaeth a Llywodraethu Ariannol (Gwiriad CRhLIA), yn unol â'r gofynion sydd wedi eu nodi gan y Swyddfa Myfyrwyr yn ei Chanllawiau i Noddwyr Myfyrwyr.[7] Mae'r elfen hon yn wiriad o gynaliadwyedd, rheolaeth a llywodraethu ariannol, gyda'r nod o wneud y myfyrwyr yn rhesymol hyderus na ddylent fod mewn perygl o fethu cwblhau eu cyrsiau oherwydd methiant ariannol eu darparwr addysg. Rydym yn bwriadu i'r gwiriad hwn fod yn gyson ar draws y darparwyr i gyd sydd angen cael adolygiad er mwyn bodloni gofynion y Swyddfa Gartref o ran goruchwyliaeth Addysgol. Mae hyn yn newid o'r trefniadau o dan y dulliau presennol o adolygu darparwyr amgen, lle mae darparwyr o dan y dulliau Cynllun CGA neu GA-TE heb fod yn atebol i'r un gofynion am gael Gwiriad CRhLIA fel darparwyr o dan y dulliau Adolygiad AU-DA neu Adolygiad AU-DP.

30 Ein rheswm am y cynnig hwn yw ein bod yn ei ystyried yn anomaledd o fewn ein dull cyfredol bod y gofynion sy'n ymwneud ag ystyried y Gwiriad CRhLIA yn amrywio yn dibynnu ar y darparwr sy'n cael ei adolygu. Rydym eisiau i'r dull diwygiedig alinio'n eglur â gofynion y Swyddfa Gartref i'r darparwyr sydd angen cael adolygiad at y diben hwnnw, ac felly rydym yn dod i'r casgliad bod angen dull cyson. Wrth wneud y cynnig hwn, rydym wedi ystyried y bydd hyn yn cyflwyno cost ariannol ychwanegol i rai darparwyr sydd heb fod yn atebol o'r blaen i'r dull o wneud y Gwiriad CRhLIA yr ydym bellach yn ei gynnig. I liniaru hyn, bydd QAA yn adolygu'n benodol y dull o wneud y Gwiriad CRhLIA i ganfod ymhle, gyda'r profiad o fod wedi gwneud hyn ers amser, y gallai fod yn bosibl canfod effeithlonderau yn y dull.

[7] www.gov.uk/government/publications/student-sponsor-guidance.

31 Wrth wneud y cynnig hwn, rydym wedi ystyried y costau cysylltiedig hefyd y bydd yn rhaid i ddarparwyr eu talu, am ein bod yn bwriadu pasio costau'r Gwiriad CRhLIA ymlaen i'r darparwr (fel y gwnawn yn awr). Fodd bynnag, wrth ailddatblygu'r dull, rydym wedi canfod ymhle y gellir darparu effeithlonderau, yn arbennig yn y broses fonitro, sy'n cael effaith gyffredinol ar ffioedd. Rydym yn ystyried bod hon yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ydyw'n gwneud synnwyr i weithredu un dull o wneud y Gwiriad CRhLIA. Yn hwyrach yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn trafod ymhellach yr effaith ar ffioedd am wneud adolygiadau, ac efallai y bydd yr ymatebwyr eisiau ystyried y wybodaeth hon cyn ffurfio barn mewn perthynas â'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad.

**C: Ydych chi'n cytuno y dylai pob darparwr categori A fod yn atebol i ddull cyson o wneud Gwiriad CRhLIA?**

## Cynnig 4: Amserlenni dangosol y broses adolygu

32 Un agwedd allweddol o unrhyw ddull adolygu yw'r amserlen a'r camau allweddol sy'n rhan o hyn. Yn debyg i'r dulliau cyfredol o adolygu darparwyr amgen, rydym yn bwriadu cadw cylch cyffredinol y broses adolygu lawn, gyda chamau monitro dilyniant yn y tair blynedd ddilynol. Ond, rydym yn bwriadu lleihau amserlen adolygiad llawn o'i chymharu â'r dulliau cyfredol o adolygu darparwyr amgen.

33 Y rheswm am hyn yw ein bod yn ei ystyried yn bosibl lleihau'r baich amser cyffredinol ar y darparwyr gan hefyd sicrhau y rhoddir digon o amser i gwblhau pob cam. Rydym yn ymwybodol o'r ffaith bod angen amser ac adnoddau sylweddol o fewn darparwr i hwyluso'r broses adolygu. Rydym eisiau sicrhau ein bod yn cefnogi darparwyr i gyflawni erbyn y dyddiadau cwblhau gofynnol. I'r perwyl hwnnw, rydym hefyd yn bwriadu ail edrych ar y templedi a chyflwyniadau eraill yr ydym yn gofyn amdanynt gan ddarparwyr er mwyn sicrhau eu bod yn esbonio'n glir i ddarparwyr pa bethau sy'n ofynnol a pha bethau nad ydynt.

34 Mae'r tablau isod yn cymharu amserlenni'r dulliau presennol o adolygu darparwyr amgen gyda hyd dangosol proses adolygu, yn dibynnu a yw'r darparwr yn atebol i gael ei adolygu yn erbyn yr Elfen Graidd neu'r Elfen Lawn.

| **Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol (Adolygiad GorA)** | | **Adolygiad Addysg Uwch (Darparwyr Amgen / Darparwyr Tramor)** | |
|---|---|---|---|
| **Wythnosau gwaith (dangosol)** | **Gweithgareddau** | **Wythnosau gwaith** | **Gweithgareddau** |
| Wythnos 0 | QAA yn rhoi gwybod i'r darparwr am y tîm adolygu arfaethedig ac enw'r Swyddog QAA a fydd yn cydlynu'r broses adolygu | Wythnos 0 | (Darparwr newydd yn cyflwyno ffurflen gais)<br><br>Y darparwr yn cychwyn ei waith o adolygu'r llawlyfr a pharatoi ar gyfer yr adolygiad<br><br>Y darparwr yn enwebu ei hwylusydd a'i brif gynrychiolydd myfyrwyr<br><br>Y darparwr yn dechrau ystyried y deunyddiau briffio ar-lein<br><br>QAA yn rhoi gwybod i'r darparwr am ddyddiadau'r ymweliad adolygu a maint y tîm adolygu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| +1 wythnos | Y darparwr yn cadarnhau cyfansoddiad y tîm adolygu ar ôl ei wirio i sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau | +4 wythnos | QAA yn rhoi gwybod i'r darparwr am enwau aelodau'r tîm adolygu ac enw'r Swyddog QAA a fydd yn cydlynu'r broses adolygu |
| +4 wythnos | Cyfarfod paratoadol rhwng y Swyddog QAA a'r darparwr<br>Y darparwr (categori A yn unig) yn cyflwyno dogfennaeth i Wiriad CRhLlA<br>Y darparwyr yn talu'r ffi adolygu | +6 wythnos | Cyfarfod paratoadol rhwng y Swyddog QAA a'r darparwr |
| | | +6 wythnos | Y darparwyr sydd angen cael goruchwyliaeth addysgol yn cyflwyno dogfennaeth i'r Gwiriad CRhLlA ac yn talu'r ffi am y Gwiriad CRhLlA (gosodir yr union ddyddiad yn dibynnu ar amgylchiadau'r broses adolygu)<br>Y darparwyr yn talu'r ffi adolygu |
| +9 wythnos | Y darparwr yn llwytho ei hunanwerthusiad a'r dystiolaeth ategol i ffolder electronig QAA<br>Y prif gynrychiolydd myfyrwyr yn llwytho cyflwyniad y myfyrwyr<br>Y tîm adolygu'n cychwyn ei waith dadansoddi cychwynnol | +12 wythnos | Y darparwr yn llwytho ei hunanwerthusiad a'r dystiolaeth ategol i ffolder electronig QAA<br>Y prif gynrychiolydd myfyrwyr yn llwytho cyflwyniad y myfyrwyr<br>Y tîm adolygu'n cychwyn ei waith dadansoddi cychwynnol |
| +11 wythnos | Y Swyddog QAA yn rhoi gwybod i'r darparwr am unrhyw geisiadau am dystiolaeth ddogfennol ychwanegol | +15 wythnos | Y Swyddog QAA yn rhoi gwybod i'r darparwr am unrhyw geisiadau am dystiolaeth ddogfennol ychwanegol |
| +13 wythnos | Y darparwr yn llwytho tystiolaeth ychwanegol<br>Y tîm yn gwneud rhagor o waith dadansoddi | +18 wythnos | Y darparwr yn llwytho tystiolaeth ychwanegol (os oes ei hangen) |
| +15 wythnos | Y tîm yn cynnal ei gyfarfod cyntaf i drafod ei waith dadansoddi cychwynnol a chytuno ar raglen yr ymweliad adolygu | +20 wythnos | Y tîm yn cynnal ei gyfarfod cyntaf i drafod ei waith dadansoddi cychwynnol a chytuno ar hyd yr ymweliad adolygu a'r rhaglen ar ei gyfer |
| +16 wythnos | Y Swyddog QAA yn rhoi gwybod i'r darparwr am y canlynol:<br>- prif linellau ymholi'r tîm<br>- pwy mae'r tîm eisiau cyfarfod â nhw<br>- unrhyw geisiadau am dystiolaeth ddogfennol ychwanegol | +20 wythnos | Y Swyddog QAA yn rhoi gwybod i'r darparwr am y canlynol:<br>- hyd yr ymweliad adolygu<br>- prif linellau ymholi'r tîm<br>- pwy mae'r tîm eisiau cyfarfod â nhw<br>- unrhyw geisiadau am dystiolaeth ddogfennol ychwanegol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| +19 wythnos | Ymweliad adolygu | +24 wythnos | Ymweliad adolygu |
| +20 wythnos | Y Swyddog QAA yn anfon llythyr sy'n nodi'r canfyddiadau allweddol at y darparwr (gyda chopi i'r Swyddfa Gartref, ar gyfer darparwyr categori A) | +26 wythnos | Y Swyddog QAA yn anfon llythyr sy'n nodi'r canfyddiadau allweddol at y darparwr (gyda chopi i'r Swyddfa Gartref, a/neu gyrff neu sefydliadau dyfarnu fel y bo'n berthnasol) |
| +24 wythnos | QAA yn anfon fersiwn drafft o'r adroddiad adolygu at y darparwr a'r prif gynrychiolydd myfyrwyr | +30 wythnos | QAA yn anfon fersiwn drafft o'r adroddiad adolygu at y darparwr a'r prif gynrychiolydd myfyrwyr (gyda chopi i'r cyrff neu sefydliadau dyfarnu, fel y bo'n berthnasol) |
| +26 wythnos | Y darparwr (a'r prif gynrychiolydd myfyrwyr) yn adolygu'r adroddiad drafft i sicrhau bod y ffeithiau'n gywir | +33 wythnos | Y darparwr a'r prif gynrychiolydd myfyrwyr yn rhoi unrhyw gywiriadau ffeithiol (gan gynnwys unrhyw sylwadau gan gyrff neu sefydliadau dyfarnu) |
| +27 wythnos | QAA yn cadarnhau'r adroddiad terfynol; os bydd yr adroddiad yn cynnwys beirniadaethau negyddol - y darparwr yn ystyried a ddylid apelio | | |
| +29 wythnos | QAA yn cyhoeddi'r adroddiad | +36 wythnos | QAA yn cyhoeddi'r adroddiad |
| +31 wythnos | Y darparwr yn cyflwyno ei gynllun gweithredu i gael ei adolygu gan QAA | +44 wythnos | Y darparwr yn cyhoeddi ei gynllun gweithredu ar ei wefan |

| **Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol (Adolygiad GorA)** | | **Cynllun Cydnabod ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol (Cynllun CGA) a Goruchwyliaeth Addysgol - Trefniadau Eithriadol (GA-TE)** | |
|---|---|---|---|
| **Wythnosau gwaith (dangosol)** | **Gweithgareddau** | **Wythnosau gwaith** | **Gweithgareddau** |
| Wythnos 0 | QAA yn rhoi gwybod i'r darparwr am y tîm adolygu arfaethedig ac enw'r Swyddog QAA a fydd yn cydlynu'r broses adolygu | Wythnos 0 | QAA yn rhoi gwybod i'r darparwr a'r cyrff/sefydliadau dyfarnu graddau perthnasol am yr ymweliad adolygu |
| +1 wythnos | Y darparwr yn cadarnhau cyfansoddiad y tîm adolygu ar ôl ei wirio i sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau | | |
| +4 wythnos | Cyfarfod paratoadol rhwng y Swyddog QAA a'r darparwr<br>Y darparwr (categori A yn unig) yn cyflwyno dogfennaeth i Wiriad CRhLlA<br>Y darparwyr yn talu'r ffi adolygu | +4 wythnos (o leiaf) | Cyfarfod paratoadol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| +9 wythnos | Y darparwr yn llwytho ei hunanwerthusiad a'r dystiolaeth ategol i ffolder electronig QAA<br><br>Y prif gynrychiolydd myfyrwyr yn llwytho cyflwyniad y myfyrwyr<br><br>Y tîm adolygu'n cychwyn ei waith dadansoddi cychwynnol | +8 wythnos | Hunanwerthusiad y darparwr a chyflwyniad ei fyfyrwyr |
| +11 wythnos | Y Swyddog QAA yn rhoi gwybod i'r darparwr am unrhyw geisiadau am dystiolaeth ddogfennol ychwanegol | +11 wythnos | Y tîm yn gofyn am ddogfennaeth ychwanegol |
| +13 wythnos | Y darparwr yn llwytho tystiolaeth ychwanegol<br><br>Y tîm yn gwneud rhagor o waith dadansoddi | +13 wythnos | Y darparwr yn llwytho dogfennau ychwanegol |
| +15 wythnos | Y tîm yn cynnal ei gyfarfod cyntaf i drafod ei waith dadansoddi cychwynnol a chytuno ar raglen yr ymweliad adolygu | | |
| +16 wythnos | Y Swyddog QAA yn rhoi gwybod i'r darparwr am y canlynol:<br>- prif linellau ymholi'r tîm<br>- pwy mae'r tîm eisiau cyfarfod â nhw<br>- unrhyw geisiadau am dystiolaeth ddogfennol ychwanegol | | |
| +19 wythnos | Ymweliad adolygu | +14 wythnos | ymweliad adolygu â'r darparwr |
| +20 wythnos | Y Swyddog QAA yn anfon llythyr sy'n nodi'r canfyddiadau allweddol at y darparwr (gyda chopi i'r Swyddfa Gartref, ar gyfer darparwyr categori A) | +16 wythnos | Anfonir y llythyr canfyddiadau allweddol at y darparwr, Fisâu a Mewnfudo'r DU a'r cyrff/ sefydliadau dyfarnu graddau perthnasol |
| +24 wythnos | QAA yn anfon fersiwn drafft o'r adroddiad adolygu at y darparwr a'r prif gynrychiolydd myfyrwyr | +20 wythnos | Anfonir adroddiad drafft at y darparwr i dderbyn sylwadau aem ei gywirdeb ffeithiol |
| +26 wythnos | Y darparwr (a'r prif gynrychiolydd myfyrwyr) yn adolygu'r adroddiad drafft i sicrhau bod y ffeithiau'n gywir | +23 wythnos | Y darparwr yn cyflwyno sylwadau ar gywirdeb ffeithiol i QAA |
| +27 wythnos | QAA yn cadarnhau'r adroddiad terfynol; os bydd yr adroddiad yn cynnwys beirniadaethau negyddol - y darparwr yn ystyried a ddylid apelio | | |
| +29 wythnos | QAA yn cyhoeddi'r adroddiad | +26 wythnos | QAA yn cyhoeddi adroddiad adolygu ar wefan www.qaa.ac.uk; y darparwr yn cyhoeddi ei gynllun gweithredu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| +31 wythnos | Y darparwr yn cyflwyno ei gynllun gweithredu i gael ei adolygu gan QAA | +36 wythnos | Y darparwr yn anfon ei gynllun gweithredu at QAA<br><br>Y darparwr yn rhoi dolen ar ei wefan sy'n cyfeirio at dudalen ei adroddiad ar wefan QAA |

**C: Ar sail eich dealltwriaeth o'r prosesau o adolygu yn erbyn yr Elfen Lawn a'r Elfen Graidd fel sydd wedi eu nodi yn y canllawiau, ydych chi'n cytuno bod yr amseriadau dangosol a gynigir ar gyfer adolygiad llawn (paragraffau 31 i 32 y canllawiau) yn briodol?**

## Cynnig 5: Trefniadau symlach ar gyfer gwneud cais

35 O dan y dull o adolygu darparwyr amgen, mae gan QAA broses ymgeisio gychwynnol cyn i'r darparwr gael ei dderbyn ar gyfer adolygiad. Rydym wedi ceisio symleiddio'r broses hon gyda'r nod y bydd QAA yn gallu darparu canllawiau penodol i ddarparwyr cyn iddyn nhw fynd i mewn i'r broses adolygu, ac archwilio eu rhesymau am fod angen adolygiad er mwyn sicrhau bod y broses adolygu'n gywir iddyn nhw, cyn iddynt wneud ymrwymiad i fwrw ymlaen.

36 Bydd gofyn i bob darparwr wneud cais drwy broses ymgeisio ffurfiol ond mae'r llwybr i'r darparwr yn amrywio yn dibynnu a yw'n perthyn i gategorïau A a B, neu gategori C. O dan y dulliau ar gyfer darparwyr amgen, codwyd ffi am wneud cais yn y gorffennol. Rydym wedi penderfynu diddymu'r ffi am wneud cais ar gyfer darparwyr sy'n perthyn i gategorïau A a B, gan nodi mai eu hunig bwrpas am wneud cais yw bodloni gofynion rheoleiddiol corff arall, ac felly rydym eisiau diddymu'r rhwystrau i fynediad.

37 I ddarparwyr sy'n ceisio cael eu hadolygu at ddibenion eraill (darparwyr categori C) bydd ffi osodedig am wneud cais. Y rheswm am hyn yw bod QAA yn ei ystyried yn debygol y bydd gofyn cael cam craffu ychwanegol ar y cam ymgeisio i sicrhau bod y gallu gan ddarparwyr sy'n gwneud cais am gael adolygiad i ymgysylltu â'r broses adolygu. Rydym yn ystyried bod hyn yn risg llai i ddarparwyr sy'n perthyn i gategorïau A a B oherwydd bydd cam craffu rheoleiddiol ychwanegol ar gyfer y darparwyr hyn, ac felly rydym yn rhagweld y byddent yn debygol o fod wedi cael meintiau mwy o drafod mewnol ynglŷn â sut maen nhw fel darparwr yn bwriadu ymgysylltu â phrosesau craffu allanol. Rydym yn bwriadu codi ffi am wneud cais o £1,500 i ddarparwyr categori C, sef gostyngiad o'i gymharu â'r ffi gyfredol o £1,615 o dan y trefniadau cyfredol ar gyfer darparwyr amgen.

**C: Ydych chi'n cytuno y dylai QAA ddileu ffi am wneud cais ar gyfer darparwyr sy'n ceisio cael eu hadolygu at ddibenion goruchwyliaeth addysgol ar gyfer y Swyddfa Gartref, neu Ddynodiad Cwrs Penodol, a chadw ffi o £1,500 i ddarparwyr sy'n ceisio cael eu hadolygu at ddibenion eraill?**

## Cynnig 6: Dull safonol o adolygu a dadansoddi

38 Mae'r prif weithgareddau adolygu - sy'n gofyn i ddarparwyr gyflwyno tystiolaeth a fydd yn cael ei hasesu gan aseswyr arbenigol, yn cynnwys myfyrwyr - yn gyffredin i holl ddulliau adolygu QAA. Mae'r dull yn gofyn bod darparwyr yn gwneud hunanasesiad, a bydd hwn yn cael ei graffu gan aseswyr, yn cynnwys drwy ymweliad. Llunnir dulliau adolygu QAA gan ystyried gofynion y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd ar gyfer Sicrhau Ansawdd.

39 I fod yn gyflawn, rydym eisiau rhoi'r cyfle i ymatebwyr roi sylwadau am yr elfennau hyn, gan nodi'n arbennig y byddem eisiau sicrhau bod ein harweiniad mor glir a defnyddiol ag y bo

modd i ddarparwyr sy'n cael eu hadolygu. Rydym yn ystyried, fodd bynnag, mai cyfyngedig yw'r gallu i addasu'r egwyddorion sylfaenol (hynny yw, mae'r darparwyr yn cyflwyno hunanasesiad ac mae ein haseswyr arbenigol yn ystyried y wybodaeth honno) am fod hon yn un o swyddogaethau craidd unrhyw drefniadau sicrhau ansawdd allanol.

40 Fel y nodwyd eisoes, rydym hefyd yn bwriadu mai fersiwn 2024 o'r Cod Ansawdd fydd y pwynt cyfeirio ar gyfer y dull adolygu. Rydym yn ystyried bod hyn yn briodol i sicrhau bod yr adolygiad yn cael ei weithredu ar sail gymaradwy ac yn defnyddio pwynt cyfeirio sy'n cael ei ddeall yn eang ac yr ymgysylltir â hi ar draws yr holl wahanol fathau o ddarparwyr sy'n gweithredu ym maes addysg uwch y DU. I sicrhau bod gofynion sylfaenol y Swyddfa Gartref yn cael eu cyflawni i ddarparwyr a adolygir yn erbyn yr Elfen Graidd yn unig, rydym wedi mapio rhai o'r egwyddorion y cytunwyd arnynt gan y sector i ofynion y Swyddfa Gartref.

**C: Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y broses adolygu fel sydd wedi ei disgrifio ym mharagraffau 33 i 121 y canllawiau (gan gynnwys awgrymiadau ynglŷn â ffyrdd o wella'r canllawiau)?**

**C: Mewn perthynas â'r Elfen Graidd, ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y mapio rhwng y Cod Ansawdd a gofynion y Swyddfa Gartref, fel y disgrifir ar dudalennau 8 i 13 y canllawiau?**

## Cynnig 7: Beirniadaethau posibl yr adolygiad a'r camau gweithredu i'w cymryd mewn ymateb iddynt

41 Canlyniad y broses hon yw adroddiad sy'n cynnwys dadansoddiad y tîm asesu ac sy'n dod i ben gyda nifer o feirniadaethau. Bydd yr adroddiad wedi ei strwythuro i adlewyrchu beirniadaethau yn erbyn yr egwyddorion yn y Cod Ansawdd y cytunwyd arnynt gan y sector, yn ogystal â beirniadaeth gyffredinol. I ddarparwyr a asesir yn erbyn yr Elfen Graidd yn unig, bydd y feirniadaeth hon yn cyfeirio'n benodol at ofynion y Swyddfa Gartref o ran sicrhau ansawdd; i ddarparwyr sy'n cael asesiad llawn, ni fydd cyfeiriad penodol at y Swyddfa Gartref yn y feirniadaeth. Yn yr achos hwn, am fod yr asesiad yn adolygiad llawn yn erbyn pob agwedd o'r Cod Ansawdd, mae'r gofynion yn ehangach na'r rheiny sydd wedi eu nodi gan y Swyddfa Gartref (a ganiateir o dan ddisgwyliadau'r Swyddfa Gartref o ran goruchwyliaeth addysgol).

42 Rydym wedi pennu ystod wedi ei diweddaru o weithdrefnau os bydd darparwyr yn aflwyddiannus yn eu hadolygiad. Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu y bydd darparwr sydd wedi dangos aliniad gyda'r rhan fwyaf o egwyddorion y Cod Ansawdd y cytunwyd arnynt gan y sector ond sydd angen gweithredu ar nifer fach ohonynt, yn cael y cyfle i fynd i'r afael â'r problemau hyn drwy lunio cynllun gweithredu o fewn pedair wythnos, y byddwn ni'n ei asesu. Bydd hyn yn ymestyn y cyfnod adolygu.

**C: Ydych chi'n cytuno gyda'r ystod o feirniadaethau yr ydym wedi eu nodi ym mharagraffau 90 i 94 ac Atodiad 6 y canllawiau a sut y bydd y beirniadaethau hynny wedi eu penderfynu?**

**C: Ydych chi'n cytuno gyda'r dull yr ydym wedi ei ddisgrifio ym mharagraffau 100 i 108 y canllawiau ynglŷn â sut y byddwn yn penderfynu ar ganlyniad aflwyddiannus i ddarparwr?**

## Cynnig 8: Y trefniadau monitro

43 O hyn ymlaen byddwn yn cyfeirio at y camau dilyniant yn y tair blynedd ddilynol ar ôl adolygiad llawn fel Monitro. Lle bo'n berthnasol gwneud hynny, rydym wedi ceisio cadw rhai elfennau o'r dull Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol yn debyg i'r dulliau ar gyfer darparwyr amgen.

44 Rydym yn bwriadu, fel un pwynt sy'n wahanol i'r dulliau ar gyfer darparwyr amgen, y gallai'r holl ddarparwyr fod yn atebol i asesiad pen desg yn unig yn dilyn naill ai adolygiad llawn neu mewn blynyddoedd dilynol o gamau monitro. Dim ond o dan rai amgylchiadau penodol y bydd ymweliad monitro'n cael ei sbarduno - er enghraifft, os cafwyd newidiadau sylweddol yn y darparwr - a bydd yn cael ei benderfynu ar sail adroddiad blynyddol gan ddarparwyr. Mae Atodiad 8 y canllawiau'n nodi'r amgylchiadau y byddai ymweliad monitro yn berthnasol oddi tanynt. Ein rheswm am y cynnig hwn yw ein bod yn ystyried bod modd lliniaru risgiau mewn perthynas ag ansawdd a safonau, dan amrywiaeth o amgylchiadau, drwy'r broses fonitro, heb fod angen ymweliad wyneb yn wyneb. Rydym yn ystyried bod hwn yn ddull cymesur, ac yn un sydd wedi ei hysbysu gan ein profiad o weithredu'r dulliau presennol ers blynyddoedd lawer.

45 Rydym hefyd wedi nodi dull lle bydd amrediad o feirniadaethau posibl o'r broses o fonitro'r adroddiad blynyddol, ac ymweliad monitro lle mae hyn yn berthnasol. Ein disgwyliad yw mai'r canlyniad a ddisgwylir fel arfer gan ddarparwr yw y dyfernir eu bod yn gwneud cynnydd derbyniol. Ein barn ni yw bod hyn yn rhesymol oherwydd bydd y trefniadau monitro wedi eu seilio ar y cynllun gweithredu a gynhyrchir gan y darparwr yn dilyn eu hadolygiad llawn, ac ar yr amod ei fod wedi dod o ganlyniad derbyniol adolygiad, yna dylai fod yn dderbyniol i ni bod y darparwr yn dilyn y cynllun hwnnw y cytunwyd arno am sawl blwyddyn cyn i broses adolygu newydd ddigwydd.

**C: Ydych chi'n cytuno gyda'r dull arfaethedig mai'r disgwyliad fydd bod y broses fonitro'n cynnwys adroddiad blynyddol yn y lle cyntaf, ac y bydd ymweliad monitro ond yn digwydd o dan rai amgylchiadau penodol?**

**C: Ydych chi'n cytuno gyda'r ystod o feirniadaethau monitro yr ydym wedi eu nodi ym mharagraffau 146 i 150 ac Atodiad 6 y canllawiau a sut y bydd y beirniadaethau hynny wedi eu penderfynu?**

## Cynnig 9: Y drefn ffioedd am wneud Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol

46 Mae QAA yn elusen ac nid yw'n derbyn unrhyw ariannu i dalu'r costau a grëir wrth wneud adolygiadau ar gyfer goruchwyliaeth addysgol. O ganlyniad, mae'n rhaid i ddarparwyr dalu costau gweithgareddau o'r fath.

47 Wrth ffurfio ein cynigion ar gyfer y dull Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol, rydym wedi ystyried effaith ein cynigion a'r dull ar y costau sydd i gael eu codi wedyn ar ddarparwyr. Un o fuddion cyffredinol adolygu ac atgyfnerthu dulliau sefydledig fel yr ydym wedi ei wneud yw ein bod hefyd wedi gallu adnabod arbedion effeithiolrwydd yn ein dull, y gallwn wedyn fwriadu eu pasio ymlaen, o leiaf yn rhannol, i ddarparwyr.

48 Yr unig bryd y gellir pennu ein trefn ffioedd yn derfynol yw unwaith y bydd yr ymgynghoriad hwn wedi ei gwblhau ac y byddwn wedi penderfynu ar y broses adolygu derfynol, yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad. Fodd bynnag, rydym yn ei ystyried yn bwysig rhoi gwybodaeth ddangosol i ddarparwyr am y ffioedd y byddem yn disgwyl eu codi yn ystod blwyddyn academaidd 2024-25. Fel sy'n arfer cyfredol, byddai ffioedd yn cael eu hadolygu wedyn mewn blynyddoedd dilynol, fel arfer i adlewyrchu cynnydd chwyddiannol.

49 Rydym yn cynnig y lefelau ffioedd a ganlyn ar gyfer adolygiad yn erbyn yr Elfen Graidd, adolygiad yn erbyn yr Elfen Lawn, a'r ffi Monitro. O dan y dulliau ar gyfer darparwyr amgen, rydym yn codi ffi Cynnal Blynyddol sydd wedi ei seilio ar dabl cyfraddau bandio yn unol â'r nifer o fyfyrwyr sydd gan y darparwr. Rydym yn bwriadu diddymu'r trefniant hwn a chodi ffi sylfaenol i'r holl ddarparwyr.

50 Dyma ein ffioedd dangosol, ar sail y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn ac yn unol â'r dull arfaethedig sydd wedi ei nodi yn y canllawiau:

| **Yr elfen o'r broses adolygu** | **Cost ddangosol** |
|---|---|
| Adolygiad yn erbyn yr Elfen Lawn[8] | £26,500 |
| Adolygiad yn erbyn yr Elfen Graidd[9] | £12,500 |
| Ffi Monitro | £4,900 y flwyddyn |
| Ymweliad monitro | £3,000 |
| Gwiriad CRhLlA[10] | £5,000 |
| Adolygiad rhannol | Mae'r swm yn amrywio yn dibynnu ar nifer yr egwyddorion y cytunwyd arnynt gan y sector sydd i gael eu hystyried. |

51 Mae'r darparwyr sy'n atebol ar hyn o bryd i Adolygiad Addysg Uwch (Darparwyr Amgen) ac sydd yn awr angen adolygiad yn erbyn yr Elfen Lawn yn debygol o weld gostyngiad bach yng nghost eu hadolygiad llawn, am fod y pris hwn yn sefyll ar £27,565 ar hyn o bryd. Bydd darparwyr sy'n atebol i gael Adolygiad Addysg Uwch (Darparwyr Tramor) ac sydd yn awr angen adolygiad yn erbyn yr Elfen Lawn yn gweld cynnydd o £21,525. Bydd darparwyr o dan y Cynllun Cydnabod ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol, neu'r dull Goruchwyliaeth Addysgol - Trefniadau Eithriadol sydd angen adolygiad yn erbyn yr Elfen Graidd, hefyd yn gweld cynnydd bychan o £11,025. Yn ogystal, bydd nifer o ddarparwyr sydd heb fod yn atebol gynt i'r ffi Gwiriad CRhLlA yn awr yn gorfod ychwanegu hon at yr elfen adolygu, gan gynyddu eu pris mewn adolygiad llawn.

52 Fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf o ddarparwyr sefydledig yn arbed arian yn sylweddol drwy ostyngiadau mawr o gymharu'r ffi Monitro gyda'r ffi Cynnal Blynyddol yn y dulliau ar gyfer darparwyr amgen. Ar hyn o bryd, mae rhai darparwyr yn talu ffi Cynnal Blynyddol o £9,450, ac felly byddent yn gweld bod hyn wedi ei haneru bron drwy'r ffi Monitro newydd. I'r rhan fwyaf o'r darparwyr, yn cynnwys y rhai sydd yn awr yn atebol i ffi ychwanegol am y Gwiriad CRhLlA nad ydynt wedi ei thalu o'r blaen, dylai darparwyr o fewn y dulliau ar gyfer darparwyr amgen weld gostyngiad yn y cyfanswm ffioedd a delir i QAA dros y cylch llawn o bedair blynedd.

**C: Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y drefn ffioedd ddangosol?**

53 Ar hyn o bryd, codir y ffi Cynnal Blynyddol ar sail blwyddyn galendr. Rydym yn ystyried bod hyn yn aneffeithlon, yn arbennig o gofio fod pob elfen arall sy'n gysylltiedig â'r broses adolygu (y trefniadau monitro a'r cylch o bedair blynedd) yn cael eu penderfynu ar sail blwyddyn academaidd. Rydym hefyd wedi cael adborth gan ddarparwyr bod hyn yn eu drysu nhw o ran deall beth y telir amdano, a phryd. Felly rydym yn cynnig, mewn blwyddyn lle mae monitro'n mynd i ddigwydd, y byddwn yn anfonebu darparwyr ar sail blwyddyn academaidd felly bydd

[8] Mae'r ffi am adolygu yn erbyn yr Elfen Lawn wedi ei seilio ar y gost am benodi Swyddog QAA a thîm o dri adolygwr ar gyfer ymweliad ar y safle sy'n para tri diwrnod.

[9] Mae'r ffi am adolygu yn erbyn yr Elfen Graidd wedi ei seilio ar y gost am benodi Swyddog QAA a thîm o dri adolygwr ar gyfer ymweliad ar y safle sy'n para diwrnod.

[10] Fel y nodwyd eisoes yn yr ymgynghoriad hwn, mae QAA yn ystyried mireinio gweithredol pellach i'r Gwiriad CRhLlA. Felly rydym yn cynnwys y ffigur hwn fel uchafswm ffi tebygol ar gyfer blwyddyn academaidd 2024-25 ond rydym yn gobeithio ei ostwng ymhellach lle bo modd.

y ffi Monitro'n daladwy ar ddechrau'r hydref ymhob blwyddyn. Does dim rhaid i ddarparwyr dalu ffi Monitro yn y flwyddyn y mae'r adolygiad llawn yn digwydd ynddi, a bydd yr adolygiad llawn yn cael ei anfonebu ar y pwynt priodol ar amserlen y broses adolygu.

54 Mewn perthynas â darparwyr sefydledig sy'n atebol i'r dulliau o adolygu darparwyr amgen, bydd hyn yn amodol ar y trefniadau pontio sydd wedi eu nodi isod.

**C: Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am ein cynnig i godi'r ffi Monitro ar sail blwyddyn academaidd, yn hytrach nag ar sail blwyddyn galendr?**

## Cynnig 10: Trefniadau pontio

55 Mae gweithrediad y dull newydd arfaethedig hwn yn ddibynnol ar bennu fersiwn newydd y Cod Ansawdd yn derfynol, ac rydym yn disgwyl i hyn ddigwydd yn agos at ddiwedd blwyddyn academaidd 2023-24 (yn amodol ar ymgynghoriad ar wahân). Rydym yn bwriadu gweithredu'r dull newydd hwn yn ystod blwyddyn academaidd 2024-25.

56 Bydd pob darparwr newydd sy'n gwneud cais am gael adolygiad yn cael y dull adolygu newydd. I hwyluso trosglwyddiad llyfn, ac i leihau'r problemau i ddarparwyr sy'n bwriadu gwneud cais am adolygiad, ni fydd QAA bellach yn derbyn ceisiadau am y dulliau cyfredol o adolygu darparwyr amgen ar ôl 1 Mawrth 2024. Bydd QAA yn cysylltu'n unigol hefyd â darparwyr sy'n cysylltu â hi yn y cyfnod hwn i drafod eu hamgylchiadau unigol a pha drefniadau y gellir eu gwneud ar gyfer eu hadolygiad.

57 Mewn perthynas â darparwyr sefydledig sy'n atebol i'r dulliau ar gyfer darparwyr amgen, mae nifer sylweddol o'r darparwyr hynny i gael eu hadolygu yn ystod 2024-25. Rydym yn teimlo, os na fyddwn yn adolygu'r darparwyr hyn yn ystod 2024-25 yn erbyn egwyddorion newydd y Cod Ansawdd y cytunwyd arnynt gan y sector, byddai'n rhaid gwneud adolygiad llawn arall yn ystod 2025-26, neu, ar yr hwyraf, 2026-27 ar gyfer y darparwyr hyn er mwyn i QAA fod yn hyderus bod y darparwyr yn gweithredu yn unol â disgwyliadau wedi eu diweddaru'r Cod Ansawdd.

58 Rydym yn ystyried bod hyn yn hynod o annymunol - bydd yn peri i ddarparwyr orfod talu costau ychwanegol sylweddol, a byddai hefyd yn cael yr effaith o ddod â darparwyr at ei gilydd gan olygu bod angen i nifer fawr o ddarparwyr wneud adolygiad llawn yn yr un flwyddyn (y darparwyr o 2024-25 yn cael eu hail-adolygu, a'r darparwyr sydd i gael eu hadolygu yn 2025-26 neu 2026-27). Mae'n debygol y byddai hyn yn cael yr effaith o greu gorgostau ychwanegol i QAA, y byddem, yn ein tro'n gorfod eu pasio i'r holl ddarparwyr.

59 Rydym yn cydnabod y gallai dim ond cadarnhau'r dull adolygu a'r pwynt cyfeirio iddo i'w adolygu yn hwyr ym mlwyddyn academaidd 2023-24 gyflwyno sialens i rai darparwyr. I'r perwyl hwnnw, rydym yn bwriadu rhoi'r trefniadau pontio a lliniaru a ganlyn ar waith ar gyfer blwyddyn academaidd 2024-25 yn unig:

a Byddwn yn ceisio amserlennu cynifer o adolygiadau ag y gallwn yn hwyrach ym mlwyddyn academaidd 2024-25 (yn fwyaf tebygol yn fuan ym mlwyddyn galendr 2025). Bydd hyn yn caniatáu mwy o amser i rai darparwyr baratoi.

b Ar gyfer adolygiadau a fydd yn digwydd yn ystod 2024-25 yn unig, byddwn yn cyfarwyddo ein haseswyr i ystyried (lle maen nhw'n gwbl hyderus) a fyddai un o'r Arferion Craidd yn fersiwn 2018 o'r Cod Ansawdd wedi ei gyflawni sy'n debyg ei natur i un o egwyddorion fersiwn 2024 y Cod Ansawdd y cytunwyd arnynt gan y sector, ond bod angen tystiolaeth bellach i ddangos bod yr egwyddor y cytunwyd arni gan y sector wedi ei chyflawni, yna yn yr achos hwn bydd yn dderbyniol barnu bod yr egwyddor y cytunwyd arni gan y sector wedi ei chyflawni. O dan yr amgylchiadau hyn, dylid defnyddio'r cynllun gweithredu i sicrhau bod y darparwr yn gallu darparu tystiolaeth ychwanegol o fewn y 12 mis nesaf

mewn perthynas â'r egwyddorion perthnasol y cytunwyd arnynt gan y sector. (Os bydd yr aseswyr yn ystyried y byddent yn methu dod i'r casgliad bod yr Arfer Craidd sydd wedi ei nodi yn fersiwn 2018 y Cod Ansawdd wedi ei gyflawni, ac nad oes tystiolaeth o aliniad gyda'r egwyddorion y cytunwyd arnynt gan y sector sydd wedi eu nodi yn fersiwn 2024 y Cod Ansawdd, yna bydd yr aseswyr yn rhoi beirniadaeth negyddol yn unol â'r canllawiau, gyda'r canlyniadau priodol).

c Byddwn yn sicrhau ein bod yn darparu templedi gynted ag y bo modd yn ystod blwyddyn academaidd 2024-25 (waeth beth yw amseriad adolygiad y darparwyr o fewn y flwyddyn honno) i ganiatáu'r amser mwyaf i'r darparwr gynllunio a pharatoi os byddent eisiau gwneud hynny.

60 Rydym yn ystyried y dylai'r trefniadau lliniaru hyn fod yn ddigonol i adael i ni weithredu'r dull newydd, gyda beirniadaethau yn erbyn egwyddorion newydd y Cod Ansawdd, yn ystod 2024-25, heb unrhyw anfantais i'r darparwyr sy'n atebol i gael eu hadolygu.

**C: Ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig i weithredu'r dull adolygu newydd yn ystod blwyddyn academaidd 2024-25, gyda threfniadau lliniaru ar waith i'r darparwyr sefydledig hynny sydd i gael adolygiad llawn yn ystod y flwyddyn honno?**

**C: Ydych chi eisiau rhoi unrhyw awgrymiadau am drefniadau lliniaru ychwanegol y gallem eu gweithredu i helpu'r trosglwyddiad i ddarparwyr sefydledig?**

61 Mewn perthynas â darparwyr sefydledig sy'n atebol ar hyn o bryd i'r trefniadau Cynnal Blynyddol, mae angen i ni wneud trefniadau pontio ychwanegol mewn perthynas â'r trefniadau ffioedd arfaethedig. Ar ddechrau blwyddyn 2024, cafodd pob darparwr ei anfonebu am eu ffi Cynnal Blynyddol ar gyfer y flwyddyn galendr hon. Rydym yn bwriadu gweithredu'r ffi Monitro newydd ar gyfer darparwyr sy'n atebol i'r dulliau ar gyfer darparwyr amgen o 1 Ionawr 2025 ymlaen. Rydym yn cynnig anfonebu darparwyr ym mis Ionawr 2025 am swm pro rata ar gyfer gweddill blwyddyn academaidd 2025-26 (£2,858 ar sail y ffi ddangosol sydd wedi ei rhestru uchod), ac yna swm llawn y ffi Monitro ar gyfer 2025-26 ym mis Awst 2025.

**C: Ydych chi'n cytuno gyda'n dull arfaethedig ar gyfer rheoli'r trosglwyddiad o'r ffi Cynnal Blynyddol i'r ffi Monitro ar gyfer y darparwyr hynny sy'n atebol i gael eu hadolygu o dan y dulliau ar gyfer darparwyr amgen?**

## Cwestiwn i gloi

62 Mae QAA eisiau sicrhau bod y broses ymgynghori'n rhoi cyfle i'r ymatebwyr roi'r amrywiaeth ehangaf bosib o sylwadau. Rydym yn ystyried bod y cwestiynau yr ydym wedi eu nodi uchod mewn perthynas â'r 10 cynnig yr ydym wedi tynnu sylw atynt mewn cysylltiad â nodweddion arwyddocaol yn yr adolygiad ar gyfer goruchwyliaeth addysgol, yn ddigonol i roi cyfle i'r ymatebwyr roi sylwadau am y materion hynny. Rydym hefyd eisiau sicrhau bod unrhyw sylwadau eraill wedi eu nodi, ac felly rydym wedi cynnwys y cwestiwn olaf hwn.

**C: Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am gynnwys y canllawiau, neu am y cynigion hynny nad ydych wedi eu cynnwys mewn mannau eraill yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn?**

Cyhoeddwyd ar 26 Mawrth 2024

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2024
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

+44 (0)1452 557 000
[www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)